**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

# CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD LLUN, 28AIN MEHEFIN, 2021**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Gwener, 18 Mehefin 2021)

**Geraint Owen**
**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

www.gwynedd.llyw.cymru


**DYDD GWENER, 18 MEHEFIN 2021**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR GWYNEDD – DYDD LLUN, 28 MEHEFIN 2021**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod rhithiol drwy Zoom o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **10.30 y.b., DYDD LLUN, 28AIN MEHEFIN, 2021** i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

## 4. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 5. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD 5 - 175

(a) Nodi, yn unol ag adran 4.12.1 (d) o'r Cyfansoddiad, y derbyniwyd llythyr gan y Cynghorydd Gruffydd Williams, wedi ei arwyddo gan bum aelod arall, yn galw am gyfarfod o'r Cyngor i drafod yr isod yng nghyd-destun yr argyfwng tai sy'n bodoli o fewn y sir:-

**"Bod y Cyngor hwn yn edrych ar frys ar y Cynllun Datblygu Lleol (basiwyd 28.7.2017) gyda golwg i'w adolygu a'i ddiweddaru o ran polisïau cynllunio a'r iaith Gymraeg. Byddai'n ddymunol rhoi blaenoriaeth neilltuol i hyn, heibio yr hyn a nodwyd fel yr amser monitro arferol o fewn y Cynllun ei hun, a chyflwyno cynigion sy'n cyfateb i adroddiad Dr. Simon Brooks "Ail Gartrefi – Datblygu Polisiau Newydd yng Nghymru" a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.**

**Yn dilyn y Pandemig a'r ffaith na fydd yna Wylfa B, disgwylir y bydd cyfarfod o'r fath yn cyfarch y newidiadau angenrheidiol sydd eu hangen i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cymru, Cymru sydd yn fwy cyfartal a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu."**

(b) Pecyn Gwybodaeth

(i) Adroddiad yn amlinellu'r broses statudol ar gyfer adolygu Cynllun Datblygu Lleol.

(ii) Adroddiad Dr. Simon Brooks – "Ail Gartrefi – Datblygu Polisiau Newydd yng Nghymru".

(iii) Ymateb i'r adroddiad yn (ii) uchod – adroddiad i'r Cabinet ar 15 Mehefin, 2021.